# LC1517

## Adroddiad Gan Y Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth

### Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru)(Mewnforio Adar Caeth) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru)2006 (O.S.. 2006/1536 (Cy.153)) er mwyn rhoi effaith i'r estyniad tan 1 Gorffennaf 2007 ar waharddiad cyfredol yr Undeb Ewropeaidd ar fewnforio adar caeth o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Gwnaed y Rheoliadau o dan y drefn Weithredol ar 28 Mawrth 2007 a daethant i rym ar 1 Ebrill 2007. Fe'u hystyrir gan y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 drwy rinwedd erthygl 2(4) o Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Darpariaethau Trosiannol) (Is-ddeddfwriaeth Gyffredinol y Cynulliad) 2007.

### Rheol Sefydlog 15.2

Ni nodwyd pwyntiau i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Sylwadau

Wrth gyhoeddi, byddai wedi bod yn briodol cywiro sillafiad Ewropeaidd yn nhestun Cymraeg y rhagymadrodd.

Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

26 Mehefin 2007